Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

hamdden leisure

Polisi - Apeliadau Corfforaethol f1.1

DECHRAU

ATODIADAU

FERSIWN

Polisi – Apeliadau Corfforaethol

Cymeradwywyd y Polisi gan	Dyddiad Cymeradwyo	Dyddiad Gweithredu	Perchennog y Polisi	Dyddiad Adolygu
Cyngor Llawn	25.09.18	25.09.18	CR/AM	25.09.20

Cyn cysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol ynghylch cynnwys y polisi hwn, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y fewnrwyd a'r canllawiau perthnasol.
Fel pob dogfen ar y fewnrwyd, mae'r polisi yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau deddfwriaeth a pholisi. Mae'r fersiynau diweddaraf o holl ddogfennau Adnoddau Dynol i'w gweld ar dudalennau Adnoddau Dynol.

Rhif y Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Cymeradwywyd gan	Diwygio
f1.0	25.09.18	Cyngor Llawn	Polisi newydd i gynnwys prosesau disgyblu a phresenoldeb yn y gwaith. Mae'n egluro rolau, cyfrifoldebau ac amserlenni
f1.1	06.03.20	Andrea Malam	Adendwm I'r Polisi

ADENDWM I’R POLISI

Denbighshire Leisure Ltd. (DLL)

At ddibenion dehongli rolau a chyfrifoldebau gweler isod:

CSDd	DLL
Pennaeth y Gwasanaeth	Rheolwr Gyfarwyddwr / Aelod o’r Tîm Gweithredol
Cyfarwyddwr	Cyfarwyddwr Bwrdd y Cwmni
Uwch Dîm Rheoli	Tîm Gweithredol y Cwmni
Swyddog Adran 151	Cyfrifydd y Cwmni
Swyddog Monitro	Ysgrifennydd y Cwmni


1. Beth yw Apêl?
2. Proses Apeliadau Disgyblu
3. Proses Apeliadau Eraill
4. Fformat Cyfarfod Apeliadau
5. Canllaw Pellach
6. Cwestiynau Cyffredin

TERFYNAU AMSER

Gweithiwr yn lansio apêl	Cyn pen 10 diwrnod gwaith o ddyddiad rhoi gwybod am benderfyniad
Cadarnhau'r apêl, gan nodi terfynau amser a gwybodaeth ofynnol	Cyn pen 5 diwrnod gwaith o gael yr apêl
Cyfarfod apêl wedi'i drefnu	O fewn amser rhesymol a ddim mwy na 30 diwrnod gwaith o dderbyn yr apêl gan y gweithiwr
Rhoi gwybod i'r gweithiwr am ddyddiad yr apêl	O leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod apêl
Gweithiwr i ddarparu manylion am yr apêl, eu cynrychiolydd a thystion	O leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod apêl
Darparu tystiolaeth rheolwyr i'r gweithiwr	O leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod apêl
Gweithiwr yn cael gwybod am ganlyniad yr apêl	Cadarnhad yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith o'r cyfarfod apêl

*At ddibenion terfynau amser, caiff 'diwrnodau' eu cyfrif fel diwrnodau gweithio ac maen nhw'n seiliedig ar wythnos llawn amser (Llun-Gwener) ac nid diwrnodau contract gweithiwr.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldebau gweithwyr

- Sicrhau bod pob ffurflen neu waith papur gofynnol yn cael ei gyflwyno o fewn yr amserlenni/ terfynau amser a roddir.
- Os bydd y gweithiwr yn bwriadu dod â chynrychiolydd neu alw unrhyw dystion i'r cyfarfod apêl, eu cyfrifoldeb nhw fydd sicrhau eu bod yn rhoi gwybod iddynt am amser, dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfod er mwyn cadarnhau eu presenoldeb a rhoi'r holl waith papur angenrheidiol iddynt.
- Dylai'r gweithiwr sicrhau eu bod yn paratoi'n llawn ar gyfer y cyfarfod apêl a dylent gysylltu â'u cynrychiolydd cyn y cyfarfod i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rôl.

.

Cyfrifoldebau Swyddog/Panel Apeliadau

Rôl y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yw cynnal y cyfarfod mewn modd onest a gwrthrychol. Mewn achos apêl yn erbyn diswyddo, mae'r un cyfrifoldebau yn berthnasol i'r Panel Apeliadau a gaiff ei ffurfio. Gweler POlisi Apeliadau Diswyddo oherwydd camau Disgyblu.

Fel arfer, y Swyddog Apeliadau yw rheolwr y rheolwr, rheolwr cyfwerth neu reolwr uwch na'r rheolwr a oedd yn cyflawni rôl y Swyddog Penderfynu yn y cyfarfod gwreiddiol. Ni ddylent fod wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos o'r blaen. Fodd bynnag, nid yw ymwneud uniongyrchol yn golygu 'gwybodaeth flaenorol' am yr achos, ond yn hytrach, ymwneud gweithredol â phenderfyniadau allweddol sydd wedi'u gwneud o ran yr achos.

Dylai'r Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau gyfeirio at y polisi priodol (disgyblu, cwyno er enghraifft), i sicrhau bod y broses gywir wedi'i dilyn. Dylai'r Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau hefyd gysylltu â chlerc y gwrandawiad gwreiddiol a fydd yn darparu cefnogaeth weinyddol, cymryd nodiadau fel bo angen a chynorthwyo â'r canlynol lle bo'n briodol:-

- Sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei dilyn a bod y terfynau amser yn cael eu cadw, gan wneud yn siŵr bod y gweithiwr yn ymwybodol o'r rhain.

- Atgoffa'r gweithiwr bod ganddynt yr hawl i rywun ddod gyda nhw a bod angen iddynt enwi eu cynrychiolydd cyn y cyfarfod.

Cyfrifoldebau AD

- Os bydd y gweithiwr yn apelio yn erbyn diswyddiad, bydd Partner Busnes Adnoddau Dynol yn bresennol yn y cyfarfod apêl a bydd hefyd yn rhan o ffurfio'r cyfarfod apêl. Pwrpas eu presenoldeb fyddai sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei dilyn yn gywir a darparu cyngor diduedd am faterion polisi a chyfraith cyflogaeth a godir gan y naill ochr neu'r llall yn ystod y cyfarfod.
- Ni fydd AD yn bresennol o reidrwydd ym mhob cyfarfod Apêl, er bod cefnogaeth gyffredinol ar gael os oes angen.
- Bydd AD yn adolygu'r polisi hwn a sicrhau ei fod wedi'i ddiweddaru yn unol ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.

1. Beth yw Apêl?

Gall gweithiwr lansio apêl yn erbyn penderfyniad rheolwyr yn yr amgylchiadau canlynol:

- Diswyddo yn dilyn cynnydd anfoddhaol yn ystod y cyfnod prawf
- Diswyddo oherwydd Camymddwyn Difrifol
- Rhybudd Cyntaf a Rhybudd Terfynol
- Diswyddo oherwydd salwch
- Canlyniad achwyniad
- Cosb a roddwyd yn dilyn gwrandawiad galluogrwydd
- Diswyddo
- Unrhyw gam o'r weithdrefn bresenoldeb ffurfiol
- Unrhyw achos arall o ddiswyddo

Gall gweithiwr hefyd apelio yn erbyn penderfyniad yn dilyn cais am y canlynol:

- Unrhyw geisiadau a wnaed o fewn Polisi Gweithio'n Hyblyg y cyngor
- Secondiad
- Adleoliad

Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu i sicrhau bod apêl o ran unrhyw benderfyniad a wnaed yn erbyn gweithiwr Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei chynnal mewn modd onest a gwrthrychol, gan roi ystyriaeth i'r penderfyniad gwreiddiol a pha mor rhesymol roedd polisïau'r cyngor wedi'u defnyddio.

Rhoi Gwybod am Apêl

Dylai'r sail dros apelio fod yn rhesymol. Gall gweithwyr apelio yn erbyn penderfyniad/mater/canlyniad os ydynt yn credu:

- Bod y canfyddiad yn afresymol o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd
- Bod tystiolaeth newydd ar gael nad oedd ar gael ar adeg y cyfarfod gwreiddiol
- Bod afreoleidd-dra gweithdrefnol difrifol
- Na roddwyd ystyriaeth ddigonol i ffactorau lliniaru

Rhaid lansio'r apêl yn ysgrifenedig cyn pen 10 diwrnod gwaith (gweler terfynau amser) o gael gwybod yn swyddogol am y penderfyniad, drwy lenwi ffurflen Rhoi Gwybod am Apêl. Gweler Templed Ffurflen Rhoi Gwybod am Apêl. Os caiff yr apêl ei lansio ar ôl y terfyn amser 10 diwrnod, dylai'r rheolwr gadarnhau gydag AD beth yw'r camau nesaf. Mewn amgylchiadau eithriadol, a dim ond gyda rheswm da dilys, mae'n bosibl y caiff 5 diwrnod gwaith ychwanegol ei roi (Gweler adran terfynau amser), ond ar ôl yr amser hwn, caiff yr hawl apelio ei golli.

Yn eu hysbysiad ysgrifenedig o apelio, dylai'r gweithiwr ei gwneud yn glir:

- Ai'r penderfyniad a/neu lefel y gosb neu'r broses sy'n destun apêl
- Union sail yr apêl, gan gynnwys eglurhad llawn o pam maen nhw'n apelio

2. Proses Apelio yn dilyn Diswyddo oherwydd Camau Disgyblu

Panel Apeliadau a'i rôl

Lle mae apêl yn erbyn diswyddo yn dilyn gwrandawiad disgyblu, yna bydd Panel o ddau Bennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr a Phartner Busnes AD yn cynnull. Rhaid i'r Panel enwebu un aelod Panel i gymryd rôl Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Rôl y Panel yw cynnal y cyfarfod mewn modd onest a gwrthrychol. Rhaid rhoi ystyriaeth gyfartal i gyflwyniadau'r Swyddog Penderfynu a'r gweithiwr a rhaid rhoi ystyriaeth i ba mor rhesymol yw'r penderfyniad disgyblu a wnaed eisoes. Gall cyfarfod apêl wedi'i gynnal yn gywir gywiro proses ddisgyblu flaenorol a oedd yn ddiffygiol a rhaid cymryd gofal i sicrhau bod penderfyniad y Panel yn un y gall ei gymryd yn rhesymol, gan roi ystyriaeth i'r amrywiaeth o gosbau disgyblu sydd ar gael.

Rhaid i'r Panel roi ystyriaeth i'r ffaith y gellir cynnal tribiwnlys cyflogaeth yn ddiweddarach, os gwneir penderfyniad i ddiswyddo. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y tribiwnlys yn ystyried pa mor rhesymol yw camau gweithredu'r cyflogwr, gan gynnwys y broses apelio. Felly rhaid i'r Panel ystyried pob agwedd ar yr achos, ceisio rhagor o wybodaeth os yw'n briodol, a rhoi ystyriaeth i unrhyw wybodaeth newydd sydd wedi'i chyflwyno, hyd yn oed os nad yw wedi'i chyflwyno neu os nad yw'n hysbys yn y cyfarfod disgyblu gwreiddiol. Os nad yw'r Panel yn fodlon gyda'r broses ddisgyblu, ac nad oes ail-wrandawiad llawn wedi digwydd, mae'n bosibl y bydd yn briodol cyfeirio'r mater ar gyfer ymchwiliad pellach a/neu gyfarfod disgyblu newydd.

Mae rhagor o fanylion am y prawf rhesymoldeb wedi'u dangos isod. Rhaid i holl aelodau'r Panel Apeliadau, lle bo'n briodol, roi ystyriaeth i'r agwedd hon hefyd. Rhaid iddynt fod yn fodlon bod sail i'w penderfyniad, o ran y camymddwyn neu'r perfformiad anfoddhaol sydd wedi digwydd.

Mae rhesymoldeb camau gweithredu cyflogwr, fel y gellir ei roi ar brawf gan Dribiwnlys Cyflogaeth, yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys:

- A oes ymchwiliad priodol wedi'i gynnal?
- Ydi'r camau gweithdrefnol priodol wedi'u dilyn?
- A oes cred dilys o ran camau gweithredu'r unigolyn?
- A oes sail resymol dros y gred honno?
- A oes unrhyw amgylchiadau lliniarol i'w hystyried ar ran yr unigolyn?

Cyfeiriwch at y Polisi Disgyblu i gael rhagor o fanylion am y broses Ddisgyblu gywir i'w dilyn a chanlyniadau posibl dilynol.

3. Pob Apêl arall ar wahân i Ddiswyddo a Geir dan y Polisi Disgyblu

Swyddog Apeliadau a'i rôl

Fel arfer, y Swyddog Apeliadau yw rheolwr y rheolwr, rheolwr cyfwerth neu reolwr uwch na'r rheolwr a oedd yn cyflawni rôl y Swyddog Penderfynu yn y cyfarfod gwreiddiol. Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw achos o ddiswyddo absenoldeb cam 3, dan y weithdrefn presenoldeb yn y gwaith, rhaid i Bennaeth Gwasanaeth neu Gyfarwyddwr arall wrando ar yr apêl.

Rôl y Swyddog Apeliadau yw cynnal y cyfarfod mewn modd onest a gwrthrychol. Rhaid rhoi ystyriaeth gyfartal i gyflwyniadau'r Swyddog Penderfynu a'r gweithiwr a rhaid rhoi ystyriaeth i ba mor rhesymol yw'r penderfyniad a wnaed eisoes. Gall cyfarfod apêl a gynhelir yn briodol gywiro proses flaenorol a oedd yn ddiffygiol.

Bydd y Swyddog Apeliadau yn penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer sut caiff yr apêl ei wrando fel a ganlyn:

Os yw'r sail dros apelio yn ymwneud â rhan benodol o'r achos gwreiddiol, bydd y Swyddog Apeliadau yn ystyried y rhan benodol honno, ac ni fydd yr apêl yn ail-wrandawiad o'r achos cyfan.

Os mai'r sail dros apelio yw fod y weithdrefn gwrandawiad wreiddiol yn ddiffygiol, mae'n bosibl y caiff yr achos ei glywed eto gan y Swyddog Apeliadau.

Os yw'r apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod gweithio'n hyblyg, bydd y Swyddog Apeliadau yn ystyried y cais gwreiddiol a rhesymau'r rheolwr dros wrthod.

4. Fformat Cyfarfod Apeliadau

Bydd Cadeirydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yn cyflwyno pawb sy'n bresennol a chadarnhau pwrpas, fformat a rheolau'r cyfarfod a chadarnhau a oes unrhyw wybodaeth wedi'i chyflwyno, ac a ellir cyflwyno'r wybodaeth newydd yn yr apêl.

Bydd Cadeirydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yn gwirio bod cynrychiolydd undeb llafur neu gydweithiwr o Gyngor Sir Ddinbych yn dod gyda'r gweithiwr. Os nad yw hyn yn wir, caiff ei gadarnhau mai dewis y gweithiwr yw hyn.

Os yw'n ofynnol, gellir gohirio'r cyfarfod ar unrhyw adeg. Gall hyn fod yn briodol os yw ffeithiau newydd yn ymddangos neu faterion yn codi sydd angen cadarnhad. Gall fod yn angenrheidiol i ail-drefnu cyfarfod ar ddyddiad diweddarach. Os nad oes angen gohirio'r cyfarfod, bydd y gweithiwr a'u cynrychiolydd yn cael cyfle i grynhoi eu pwyntiau.

Pwy sy'n mynychu Cyfarfod Apêl?

- Y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau
- Y gweithiwr sydd wedi cyflwyno'r apêl
- Cynrychiolydd Undeb Llafur / cydweithiwr
- Swyddog penderfynu'r gwrandawiad gwreiddiol
- Tystion os yw'n berthnasol
- Partner Busnes AD yn achos apeliadau diswyddo Disgyblu
- Cynrychiolydd AD o bosibl lle bo angen ar gyfer apeliadau ar wahân i'r rhai sy'n codi o ddiswyddo disgyblu
- Gweinyddwr ar gyfer y cyfarfod

<u>Cyfarfod apelio rhan 1 – Gweithiwr yn cyflwyno eu hapêl</u>

a) Bydd y gweithiwr neu eu cynrychiolydd yn cyflwyno eu gwybodaeth, galw tystion os yw'n berthnasol a/neu gyfeirio at unrhyw ddatganiadau tystion a baratowyd.
b) Gall y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau ofyn cwestiynau i'r gweithiwr neu eu cynrychiolydd a/neu holi unrhyw dystion os yw'n berthnasol, neu gyfeirio ymhellach at y datganiadau.
c) Gall y Swyddog Penderfynu ofyn cwestiynau i'r gweithiwr neu eu cynrychiolydd a/neu holi unrhyw dystion os yw'n berthnasol, neu gyfeirio ymhellach at y datganiadau.
d) Gall y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau dorri ar draws er mwyn cael eglurhad.

Cyfarfod apelio rhan 2 – Swyddog Penderfynu yn cyflwyno ei benderfyniad

a) Bydd y Swyddog Penderfynu yn cyflwyno eu gwybodaeth, galw tystion os yw'n berthnasol a/neu gyfeirio at unrhyw ddatganiadau tystion a baratowyd.
b) Gall y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau ofyn cwestiynau i'r Swyddog Penderfynu, neu gyfeirio ymhellach at y datganiadau.
c) Gall y gweithiwr ofyn cwestiynau i'r Swyddog Penderfynu a/neu holi unrhyw dystion os yw'n berthnasol, neu gyfeirio ymhellach at y datganiadau.
d) Gall y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau dorri ar draws er mwyn cael eglurhad.

Mae'n bosibl y caiff tystion eu rhyddhau o'r cyfarfod ar ôl cwblhau eu tystiolaeth, ar ddisgresiwn y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau.

Cyfarfod apelio rhan 3 – Crynodeb cyffredinol

a) Gofynnir i'r Swyddog Penderfynu roi crynodeb.
b) Gofynnir i'r Gweithiwr neu eu cynrychiolydd roi eu crynodeb.
c) Bydd Cadeirydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yn gofyn a yw'r ddwy ochr yn fodlon eu bod wedi dweud eu dweud.
d) Bydd Cadeirydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yn diolch i'r gweithiwr, eu cynrychiolydd a Swyddog Penderfynu'r cyfarfod gwreiddiol a gofyn iddynt adael

Cyfarfod apelio rhan 4 – Gwneud penderfyniad

Bydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yn ystyried y dystiolaeth fel mae wedi'i chyflwyno, gan ymgynghori fel a ddymunant gyda'r nodiadau a wnaed gan weinyddwr yr apêl.

Os yw'r gweithiwr yn apelio'r penderfyniad i ddiswyddo oherwydd camau disgyblu, dylai'r Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau ystyried:

1. A yw'r achos wedi'i ymchwilio'n ddigonol, ac os felly,
2. A oedd yn rhesymol, yn ôl pwysau tebygolrwydd, i'r cyfarfod gwreiddiol gasglu bod camymddwyn wedi'i gadarnhau, ac os felly,
3. A oedd y canlyniad o fewn amrywiaeth camau gweithredu rhesymol i'w cymryd

Os bydd y gweithiwr yn apelio lefel y camau gweithredu a gymerwyd ar ôl camau disgyblu, dylai'r Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau ystyried y ffeithiau fel y cawsant eu cyflwyno i'r cyfarfod apêl a phenderfynu pa lefel o weithredu sy'n briodol. Bydd hyn yr un ymateb, neu ymateb llai, na'r un a roddwyd yn y cyfarfod gwreiddiol.

Os yw'r gweithiwr yn apelio am reswm ar wahân i ganlyniad i gamau disgyblu, dylai'r Swyddog Apeliadau ystyried a oedd y broses gywir wedi'i dilyn, tegwch a rhesymoldeb yr achos hyd yma, a p'un a oedd y canlyniad yn dod o fewn yr amrywiaeth o ganlyniadau rhesymol i'r sefyllfa benodol honno. Fel a amlinellir yn y paragraff uchod, bydd y canlyniad yr un fath, neu lai, na'r un a roddwyd yn y cyfarfod gwreiddiol.

Gall Cadeirydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau alw pawb yn ôl a chyhoeddi'r penderfyniad(au) iddynt yn bersonol. Neu, efallai byddai'n well gan Gadeirydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau beidio galw'r ddwy ochr yn ôl, ond gohirio eu penderfyniad ac ymateb yn ddiweddarach yn ysgrifenedig.

Os bydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau wedi penderfynu mai adfer yw canlyniad y cyfarfod apêl, rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i hyn pan fydd perthnasoedd yn torri i lawr.

Os bydd apêl y gweithiwr yn erbyn achos o wrthod gweithio'n hyblyg, dylai'r Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau ystyried y rhesymau busnes dros y penderfyniad gwreiddiol.

Bydd penderfyniad y cyfarfod apêl yn derfynol a chaiff ei gadarnhau yn ysgrifenedig i bawb gan gynnwys cynrychiolydd y gweithiwr cyn pen 5 diwrnod gwaith* (gweler adran terfynau amser) o ddyddiad y cyfarfod apêl. Bydd gweinyddwr y cyfarfod yn cynorthwyo'r panel gyda'r ohebiaeth hon.

Nid oes hawl apelio pellach yn erbyn y penderfyniad ar ôl i apêl gael ei chlywed.

Dylai copïau o'r holl nodiadau a gohebiaeth sy'n berthnasol i'r apêl gael eu hanfon ymlaen i AD.

5. Canllaw Pellach

Gweinyddu cyn y cyfarfod apêl

Bydd AD yn cadarnhau derbyn yr apêl yn ysgrifenedig, cyn pen 5 diwrnod gwaith (Gweler adran terfynau amser).

Caiff y gweithiwr wybod yn ysgrifenedig am y cyfarfod apêl a'u hawl i gael cynrychiolydd gweithwyr, swyddog undeb llafur neu gydweithiwr gyda nhw yn yr apêl. Gweler Templed Llythyr Gwahoddiad i Gyfarfod Apêl. Gall y cynrychiolydd gymryd rhan yn y cyfarfod, ond ni allant ateb cwestiynau ar ran y gweithiwr.

Cynhelir y cyfarfod apêl o fewn terfyn amser rhesymol, fel arfer cyn pen 10 diwrnod gwaith (gweler adran terfynau amser) o dderbyn yr apêl. Fodd bynnag, mewn achosion mwy cymhleth, gall hyn gael ei estyn i fod cyn pen 30 diwrnod gwaith.

O leiaf 5 diwrnod gwaith (gweler adran terfynau amser) cyn y cyfarfod, bydd y gweithiwr yn:

- cael hysbysiad ysgrifenedig o amser a lleoliad y cyfarfod.
- cael gwybod sut caiff yr achos ei glywed a gan bwy.
- cael unrhyw wybodaeth / tystiolaeth reoli newydd ychwanegol a gaiff ei ystyried yn y cyfarfod.

O leiaf 5 diwrnod gwaith (gweler adran terfynau amser) cyn y cyfarfod, bydd angen i'r gweithiwr ddarparu'r canlynol i'r Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau:

- cadarnhad y byddant yn mynychu'r cyfarfod
- unrhyw fanylion ychwanegol i gefnogi eu hapêl
- manylion eu cynrychiolydd
- manylion unrhyw dystion

Cyfrifoldeb y gweithiwr yw sicrhau bod eu cynrychiolydd a'u tystion ar gael i fynychu'r cyfarfod.
Gall y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau naill ai ddibynnu ar ganlyniad ysgrifenedig y gwrandawiad gwreiddiol neu drefnu i'r tystion fynychu'r cyfarfod apêl.

Bydd darpariaethau yn cael eu gwneud ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anghenion unigolyn ag anableddau yn y cyfarfod, os rhoddir hysbysiad rhesymol ymlaen llaw i'r Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau cyn y cyfarfod. Gall hyn gynnwys cynnal cyfarfod mewn ystafell hygyrch, darparu dehonglydd, cyfarpar ychwanegol neu ganiatáu mwy o egwylion.

Gohirio a methu mynychu cyfarfod apêl

Bydd gohirio a methu mynychu cyfarfod apêl yn dilyn yr un canllawiau fel a nodir yn y datganiadau polisi safonol.

Nodiadau yn ystod y cyfarfod apêl

Gall gweinyddwr fynychu'r cyfarfod apêl i gymryd nodiadau.

Bydd y nodiadau hyn at ddiben y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau ac i baratoi cofnodion a gytunwyd o'r cyfarfod. Ni fydd y nodiadau hyn ar gael i'w dosbarthu i unrhyw un arall.

Dylid teipio'r nodiadau a'u dosbarthu cyn pen 5 diwrnod gwaith (gweler adran terfynau amser) o'r apêl. Dylid rhoi'r nodiadau gwreiddiol a chopi o'r nodiadau wedi'u teipio ar ffeil AD y gweithiwr.

Y weithdrefn arferol fydd y caiff cyfarfodydd apêl eu recordio gan ddefnyddio offer recordio llais a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych. Os nad yw'r gweithiwr am roi ei ganiatâd i'r Panel Apeliadau / Swyddog Apeliadau ddefnyddio'r offer recordio llais, bydd angen iddynt roi gwybod i'r Swyddog Apeliadau / Panel Apeliadau 5 diwrnod cyn y cyfarfod.

Caiff unrhyw recordiad ei drin fel data personol dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn unol ag egwyddorion GDPR.

Dogfennau i'w hystyried yn yr apêl

Pan fo'n bosibl, dylai gwybodaeth o'r cyfarfod gwreiddiol, nad yw'n destun dadl, gael ei chytuno a'i dosbarthu cyn i'r apêl gael ei chlywed.

Dylai unrhyw fwriad gan unrhyw barti i gyflwyno tystiolaeth/tystion newydd yn ystod y cyfarfod apêl, na chawsant eu hystyried yn y cyfarfod gwreiddiol, gael eu cyflwyno i weinyddwr yr apêl o leiaf 2 ddiwrnod gwaith (gweler adran terfynau amser) cyn y cyfarfod apêl. Bydd Cadeirydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yn cael y penderfyniad terfynol o ran a ellir cyflwyno gwybodaeth o'r fath.

Ystyriaethau Eraill

Dylai'r Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau roi ystyriaeth i'r canlynol:

- Mae gwneud apêl yn debygol o fod yn brofiad gofidus i'r gweithiwr.

- Os yw'r gweithiwr yn ofidus neu'n drallodus, rhowch amser iddynt beidio â chynhyrfu. Os oes angen, gohiriwch y cyfarfod ac ail-drefnu ar gyfer dyddiad diweddarach.

- Yn ystod y cyfarfod, efallai bydd llawer o rwystredigaeth a dicter yn cael ei fynegi. Fodd bynnag, ni chaniateir iaith ddifrïol neu ymddygiad ddrwg.

- A allai'r apêl fod yn ganlyniad i ymgais ddilys gan reolwr y gweithiwr i reoli ei berfformiad, neu a oes unrhyw faterion neu bryderon parhaus eraill a allai fod wedi arwain at yr apêl, neu gael effaith arni.

- Trefnu bod y Swyddog Ymchwilio gwreiddiol ac unrhyw gyfranogwyr perthnasol eraill ar gael i fynychu'r cyfarfod, os bydd angen rhagor o wybodaeth neu gadarnhad.

- Caniatáu amser i'r gweithiwr ddatgan eu hachos yn glir.

- Sicrhau bod unrhyw dystiolaeth newydd a gaiff ei chyflwyno wedi'i chynnwys yn nogfennau'r cyfarfod apêl.

Tystion

Gall tystion i unrhyw ddigwyddiad ddarparu gwybodaeth bwysig am y ffeithiau sy'n arwain at y digwyddiad dan sylw.

Gall y Swyddog Penderfynu a'r gweithiwr alw ar dystion.

Bydd angen i'r Swyddog Penderfynu / gweithiwr siarad â'r tystion i ddechrau i gadarnhau eu bod yn barod i ddarparu tystiolaeth. Ni fydd unrhyw dystion a gaiff eu galw gan y naill barti neu'r llall yn destun unrhyw golled am naill ai fynychu neu wrthod mynychu cyfarfod Apêl.

O leiaf 5 diwrnod gwaith (gweler adran terfynau amser) cyn y cyfarfod, dylai'r Swyddog Penderfynu / gweithiwr ddarparu manylion unrhyw dystion maen nhw'n bwriadu galw arnynt i'r Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau. Bydd Cadeirydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yn sicrhau bod y gweithiwr yn cael unrhyw dystiolaeth o'r achos rheolwyr, gan gynnwys unrhyw ddatganiadau tystion, y bydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yn eu defnyddio.

Cyfrifoldeb y Swyddog Penderfynu / gweithiwr yw sicrhau bod eu tystion ar gael i fynychu'r cyfarfod. Bydd tystion yn bresennol i roi eu tystiolaeth yn unig ac ni fyddant yn bresennol ar gyfer y cyfarfod cyfan. Mae'n bosibl y bydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau, y Swyddog Penderfynu, y gweithiwr neu eu cynrychiolydd yn cwestiynu'r tystion.

Dylid sicrhau bod ystafelloedd ar gael i dystion aros ynddynt cyn iddynt gael eu galw i'r cyfarfod. Dylai tystion a gaiff eu galw gan y gweithiwr gael eu cadw ar wahân i dystion a gaiff eu galw gan y Swyddog Penderfynu am hyd y cyfarfod. Gwneir pob ymdrech i ddarparu terfynau amser i dystion.

Nid yw bob amser yn angenrheidiol i ofyn i dystion fynychu cyfarfod apêl oherwydd gellir gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio datganiadau tystion yn unig.

Yr hawl i gael amser i ffwrdd i fod yn dyst

Mae gan weithiwr sydd wedi cael eu galw fel tyst hawl i gael amser rhesymol i ffwrdd i gyflawni'r rôl hwnnw, drwy drefniant ymlaen llaw gyda'u rheolwr. Dylai hyn gynnwys amser i drafod gyda'u cydweithiwr neu reolwr cyn y cyfarfod ac i fynychu'r cyfarfod.

Mae gan y rheolwr yr hawl i wrthod os na chânt ddigon o hysbysiad neu fethu â chyflenwi'r absenoldeb. Fodd bynnag, ni ddylent atal yn afresymol y gweithiwr rhag mynychu.

Nid oes rhaid i weithwyr dderbyn cais i fod yn dyst a ni ddylent fod dan bwysau i wneud hyn, fodd bynnag dylent gael eu hannog i gydweithio gymaint â phosibl i sicrhau proses deg a rhesymol.

6. Cwestiynau Cyffredin

Beth ddylwn ei ddisgwyl os caf fy ngalw fel tyst i gyfarfod?

Os gofynnir i chi fynychu cyfarfod, rhaid i'r cyflogwr a'r gweithiwr gael cadarnhau a'ch cwestiynu chi am y wybodaeth rydych wedi'i darparu. Yn gyffredinol, dim ond os oes angen eglurhad pellach o'ch datganiad ysgrifenedig y dylech gael eich galw i gyfarfod.

Os ydych yn dyst ar gyfer gweithiwr, cewch eich cwestiynu gan y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau a all ofyn i chi egluro agweddau penodol o'ch datganiad, gan gynnwys eich fersiwn chi o bethau.

Fel tyst, fel rhan o'r achos rheolwyr, gall y gweithiwr sydd wedi gwneud yr apêl ofyn cwestiynau i chi hefyd.

Mae'n bwysig eich bod yn cyfeirio at ffeithiau'r achos yn unig a chyn belled ag sy'n bosibl, cyfeirio at eiriau neu weithredoedd gwirioneddol.

Mae'n bosibl y bydd gan wahanol dystion wahanol fersiynau o beth ddigwyddodd a rhaid i'r Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau bwyso a mesur y dystiolaeth.

Beth os na fyddaf yn cytuno gyda phenderfyniad yr apêl?

Bydd penderfyniad y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yn derfynol yn unol â phroses apeliadau Cyngor Sir Ddinbych. Os na fyddwch yn derbyn penderfyniad yr apêl, gallech ofyn am gyngor gan arbenigwr allanol.

Beth os bydd perthnasoedd wedi torri i lawr rhwng fy rheolwr a minnau? Oes rhaid i mi aros yn yr un swydd tra bydd yr apêl yn cael ei chynnal?

Mae'n bwysig aros mor broffesiynol ag sy'n bosibl ac yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir i'r gweithiwr a'r rheolwr aros fel y maent yn ystod cyfnod byr yr apêl. Fodd bynnag, weithiau mae'n briodol cael eich neilltuo i rôl arall yn eich adran dros dro, neu gael eich rheoli gan reolwr gwahanol yn y tymor byr ond ni fyddai hyn ar sail barhaol. Mae'n bosibl y bydd cyfryngu yn ystyriaeth hefyd. Dylech drafod y sefyllfa gyda'ch rheolwr neu os nad yw'n bosibl, rheolwr uwch.

Beth os na fydd fy nghynrychiolydd undeb, cydweithiwr neu minnau ar gael ar y diwrnod mae'r cyfarfod apêl wedi'i drefnu ar ei gyfer?

Os oes rhesymau dilys pam na allwch chi neu eich cynrychiolwyr fynychu ar y dyddiad a drefnwyd, caiff un dyddiad pellach ei drefnu. Pe bai'r oedi hwn yn cael effaith ar derfynau amser, disgwylir i chi gytuno i ymestyn y cyfarfod y tu hwnt i'r terfyn amser. Wrth wneud cais i aildrefnu'r cyfarfod, dylech nodi pryd rydych ar gael.

Os byddwch yn methu mynychu fwy nag unwaith heb achos rhesymol, gall y rheolwr sy'n gwrando ar eich apêl benderfynu parhau yn eich absenoldeb ar sail y wybodaeth sydd ar gael. Cewch wybod am y penderfyniad yn ysgrifenedig.

A fyddaf yn cael digon o amser i baratoi fy achos?

Caiff pob cais am apêl ei drin ar sail fesul achos. Bydd eich rheolwr yn sicrhau eich bod yn cael amser i baratoi ar gyfer eich achos.

Beth os byddaf yn apelio oherwydd fy mod yn teimlo fy mod wedi cael fy nhrin yn annheg yn fy ngwrandawiad gwreiddiol?

Dylech roi enghreifftiau penodol o'r driniaeth rydych yn credu sy'n annheg ar eich ffurflen apêl. Bydd y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau yn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn ystod yr apêl a bydd yn gwneud penderfyniad diduedd ar y cyd â pholisïau priodol y cyngor. Mae'n bosibl y bydd Arbenigwr AD neu Bartner Busnes yn mynychu'r Apêl i ddarparu eglurder ar bolisi'r cyngor a sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn.

A all y Swyddog Apeliadau/Panel ystyried digwyddiadau newydd neu gysylltiedig a ddaw i'r amlwg yn y cyfarfod apêl?

Gall y Panel Apeliadau/Swyddog Apeliadau ystyried materion a gaiff eu hystyried yn ystod yr achos gwreiddiol yn unig. Os daw gwybodaeth newydd arwyddocaol i'r amlwg yn ystod y cyfarfod bydd angen ei hatgyfeirio ar gyfer ymchwiliad ar wahân fel achos newydd – yn unol â'r polisi neu weithdrefn berthnasol.